COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD GWENER, 21 MEHEFIN 2024 14:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | S J Griffiths | G John | J Lynch-Wilson |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

B Stephens
C Stellard

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Nimi Chandrasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Dean Jones | Accountant - Financial |
| Chris Morris | Accountant |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim

**42. Ethol Cadeirydd (Oddi wrth Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr)**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfynwyd: Cafodd yr Arweinydd, y Cynghorydd John Spanswick, ei ethol a'i benodi'n unfrydol fel y Cadeirydd ar gyfer Tymor Mai 2024-Mai 2025 |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/06/2024 |

**43. Ethol Is-Gadeirydd (O blith Aelodau Cyngor Bro Morgannwg)**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfynwyd: Cafodd y Cynghorydd Gwyn John ei ethol a'i benodi'n unfrydol fel y Cadeirydd ar gyfer Tymor Mai 2024-Mai 2025 |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/06/2024 |

**46. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfynwyd: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llangrallo ar 1 Mawrth 2024 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/06/2024 |

**47. Datganiad Cyfrifon Blynyddol 2023-4**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfrifydd, Rheoli a Chwblhau Ariannol, a'i ddiben oedd cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol heb ei archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 i'r Cydbwyllgor, a chael cymeradwyaeth i gyflwyno'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer Amlosgfa Llangrallo i Archwilio Cymru.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 15 yr adroddiad gan ofyn am eglurhad o brif achos y cynnydd mewn asedau sefydlog ac asedau tymor hir o 4.9 i 6.9 miliwn. Roedd ar ddeall bod yr achos wedi'i nodi mewn pwynt ar wahân o fewn yr adroddiad a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei ddangos yn yr adroddiad ei hun yn y dyfodol.<br><br>Ychwanegodd yr Aelod fod gan CBSP gronfeydd wrth gefn sylweddol a bu sôn bod y cronfeydd wrth gefn |

| | |
|---|---|
| | hyn yn mynd i mewn i Reoli'r Trysorlys, a fyddai'n cynhyrchu elw llog. Cyfeiriodd at bwynt 5 yr adroddiad a chysylltodd â thrafodaethau blaenorol y byddai'r llog a gynhyrchir yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau'r dyfodol.<br>Dywedodd y Rheolwr Cyllid, Rheoli a Chwblhau Ariannol fod y mater mewn perthynas â llog wedi cael ei drafod ag Uwch Swyddogion Cyllid a'i fod yn mynd drwy'r broses yn dilyn argymhelliad a wnaed yn ystod cyfarfod blaenorol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol a Chlerc a Swyddog Technegol Bwrdd Amlosgfa Llangrallo, mewn achosion lle mae cronfeydd wrth gefn sylweddol, ei bod yn hysbys bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu rhannu â rhai rhiant-awdurdodau. Fodd bynnag, dywedodd fod costau sylweddol yn digwydd o bryd i'w gilydd ac felly byddai unrhyw gronfeydd wrth gefn a gynhyrchir yn cael eu hailfuddsoddi.<br>Ychwanegodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod cymal yn y Memorandwm Cytundeb sydd wedi'i sefydlu ar gyfer y Cydbwyllgor Amlosgfa, sy'n nodi y dylid defnyddio'r holl wargedion i wella dyfodol yr amlosgfa ac na ddylid ei ailddyrannu i'r Awdurdod Rhiant.<br><br><u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol Amlosgfa Llangrallo ar gyfer 2023-24 (Atodiad 1), a chytunwyd y byddai Cadeirydd y Cydbwyllgor yn llofnodi'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/06/2024 |

## 48. Adolygiad Blynyddol o Amcanion Cynllun Busnes 2023-24

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth, a'i ddiben oedd cynghori'r Cydbwyllgor ar berfformiad Amlosgfa Llangrallo yn ystod 2023-24.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at grybwylliad blaenorol am gynllun i adnewyddu'r offer o fewn yr amlosgfa ymhen 7 mlynedd a gofynnodd beth fyddai'r costau bras ac, os felly, a oedd wedi'i gynnwys mewn cynllun buddsoddi 5 mlynedd.<br><br>Ymatebodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod yr offer wedi cael ei ddisodli ddiwethaf yn 2016 ar gost fras o Filiwn Punt Sterling, felly rhagwelwyd y byddai'r gost, pan fydd angen ei |

| | |
|---|---|
| | adnewyddu nesaf, oddeutu Miliwn a Hanner o Bunnoedd Sterling. Dywedodd fod y costau bras wedi'u cynnwys yn y cynlluniau busnes a gyflwynwyd ym mis Mawrth. Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth hefyd, er eu bod yn ystyried y cronfeydd wrth gefn da a gasglwyd, eu bod yn sawl maes lle y byddai angen buddsoddi. Ymatebodd mai eu bwriad oedd edrych ar gyllideb tymor hwy i'w chyflwyno i'r Pwyllgor trwy'r cynllun busnes nesaf ac roeddent yn edrych ar y gwariant presennol a gynlluniwyd.<br><br>Gofynnodd Aelod a oedd amcanestyniad dros gyfnod tebyg ar gyfer le claddu o fewn y safle presennol.<br><br>Ymatebodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth y cyfrifwyd am hyn pan brynwyd y tir ar gyfer yr estyniad tua 5-6 blynedd yn ôl. Y rhagolwg ar y pryd oedd y byddai gan yr Amlosgfa o leiaf 50 mlynedd arall o ddefnydd ar y safle. Soniodd hefyd am y posibiliadau sy'n datblygu'n gyson ar gyfer gwahanol fathau o offer a dywedodd fod y tîm rheoli yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r angen i fod yn gwbl gyfredol â'r opsiynau sydd ar gael a goblygiadau amgylcheddol penderfyniadau a wneir wrth i amser fynd yn ei flaen.<br><br>Roedd y Pennaeth Gweithrediadau - y Gwasanaethau Cymunedol yn cofio her flaenorol a wynebir wrth ddisodli Amlosgwyr lle'r oedd angen tynnu to'r amlosgfa a holwyd am ddarpariaethau a oedd ar waith pe bai'n wynebu sefyllfa debyg yn y dyfodol.<br><br>Ymatebodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth, gan ddisgrifio gwaith yr oedd yn rhaid ei wneud er mwyn hwyluso’r broses o newid y to a nododd fod y gwasanaeth wedi gosod to symudadwy ers hynny fel ei fod yn eistedd arno fel caead a thrwy hynny ei gwneud yn bosibl i'r amlosgwyr parod gael eu symud i mewn neu allan gan ddefnyddio craen. Ychwanegodd fod yr hyblygrwydd hwn hefyd wedi galluogi cyfleusterau rheweiddio mawr iawn i gael eu gosod. Ymhelaethodd fod hyn yn galluogi'r gwasanaeth i ofalu am eirch mewn ffordd lanweithiol iawn, gan ddal eirch dros nos a threfnu amlosgiad yn gynnar y bore wedyn.<br>Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod hyn yn eu galluogi i ddefnyddio nwy mewn ffordd llawer mwy ecogyfeillgar ac effeithlon wrth barhau i fod yn gost-effeithiol o ran cost y nwy.<br><br>Diolchodd Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol i Reolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth am eu hatgoffa o esiampl lle mae penderfyniadau a wnaed yn y gorffennol wedi cael effaith ar baratoi ar gyfer y dyfodol.<br><br>Canmolodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd Reolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth am |

| | |
|---|---|
| | gynllunio, trefnu a rheoli Amlosgfa Llangrallo ac am gynnal gweithrediadau gydag effeithlonrwydd mawr.<br><br>Cafwyd trafodaeth ynglŷn â threfnu ymweliad safle a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei ohirio tan fis Medi 2024, gan ystyried yr etholiad cyffredinol a chaniatáu amser i'r Cydbwyllgor ymsefydlu.<br><br>Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth y byddai'n gweithio gydag adran beirianneg CBSP i edrych ar wella'r Porth Ymadael a'r ffactor diogelwch ynglŷn ag ef oherwydd gwelededd gwael wrth adael yr amlosgfa.<br><br>Penderfynwyd: Cytunwyd y byddai'r Cydbwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/06/2024 |

## 49. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21/06/2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 14:44